Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

TANAU SIMNAI

Mae'n rhaid cadw eich simnai'n lân er mwyn atal tanau a difrod strwythurol i'ch cartref. Mae simneiau glân yn medru helpu'r amgylchedd hefyd, trwy helpu tanwydd i losgi'n llwyr, gan leihau allyriadau i'r atmosffer. Mae glanhau'r simnai neu'r ffliw yn rheolaidd yn rhwystro parddu rhag cronni ac mae'n clirio rhwystrau megis nythod adar ac anifeiliaid, dail a gweddillion.

PA MOR AML DDYLID GLANHAU EICH SIMNAI?

MATH O DANWYDD

Di-fwg	Glo bitwmen	Pren	Olew	Nwy
O leiaf unwaith y flwyddyn	O leiaf unwaith y flwyddyn	Pob 3 mis pan ei fod mewn defnydd	O leiaf unwaith y flwyddyn	O leiaf unwaith y flwyddyn

CARBON MONOCSID

Gofalwch nad ydych mewn perygl o ddioddef gwenwyn carbon monocsid, trwy ddefnyddio peirianyddion cymwys yn unig i osod a rhoi serfis i'ch cyfarpar. Gosodwch synhwyrydd carbon monocsid a pheidiwch byth â blocio briciau aer, awyrellau na ffliwiau.

ATAL TÂN

- Peidiwch â defnyddio hylifau fflamadwy megis petrol neu baraffîn i gynnau eich tân;
- Peidiwch â llosgi papur neu sbwriel;
- Peidiwch byth â gorlwytho'r tân gyda thanwydd;
- Ewch i mewn i'r llofft weithiau pan fod y tân ynghyn, i weld a oes mwg yn dod allan o'r craciau, bricwaith neu drawstiau morter cymalau.

OS OES TÂN

Deialwch **999** a gofynnwch am y **Gwasanaeth Tân**

Diogel ac Iach Safe & Well

LARYMAU TAN AM DDIM
GYDA YMWELIAD DIOGEL AC IACH

Ffôn – 0370 6060699
Ebost – dai@tangcg.gov.uk

Diogelwch Cymunedol
Community Safety